## Rhan 4: Templed ar gyfer atodiad i ddiweddaru adroddiad gwreiddiol yr Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd

**ATODIAD**

**Diweddariad i'r adroddiad asesiad cychwynnol o'r bygythiad llifogydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Adolygwyd yr asesiad cychwynnol o'r bygythiad llifogydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent yn ystod 2017, gan ddefnyddio holl ddata a gwybodaeth perygl llifogydd gyfredol a oedd yn berthnasol, ac fe'i cytunwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar 17 Tachwedd 2017.

Mae'r datganiadau isod yn disgrifio'r adolygiad o'r asesiad risg ers i'r adroddiad asesu cychwynnol gael ei gyhoeddi yn 2011.

### Perygl llifogydd yn y gorffennol

Cafwyd adolygiad o'r llifogydd a brofwyd ers cyhoeddi'r Adroddiad Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd yn 2011 ac ni chafwyd unrhyw lifogydd a achosodd ganlyniadau niweidiol a oedd yn arwyddocaol yn lleol.

### Perygl llifogydd yn y dyfodol

Ni nodwyd unrhyw wybodaeth newydd ers cyhoeddi'r Adroddiad Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd yn 2011 sydd wedi arwain at newid o ran deall perygl llifogydd yn y dyfodol.

### Ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd

Caiff ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd o fewn Cylch 1 eu hadolygu fel rhan o Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd sy'n gyfunol ac yn fanwl ac a fydd yn cynnwys pob ffynhonnell o berygl llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2018.